



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD YR UNED GOFAL PLANT I DDARPARU'R CYNNIG GOFAL PLANT

Data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn, y bydd modd eu hadnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r wybodaeth. Defnyddir y termau 'gwybodaeth personol' a 'data personol' trwy gydol yr hysbysiad preifatrwydd hwn ac mae ganddynt yr un ystyr.

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn trin gwybodaeth personol yn gywir, byddwn yn ceisio cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth Diogelu Data yn llawn.

Rydym yn defnyddio eich data personol at y dibenion canlynol:

Comisiynwyd Cyngor Sir Ceredigion – Uned Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru fel 'Awdurdod Gweithredu' er mwyn gweinyddu Rhaglen y Cynnig Gofal Plant. Mae hyn ar ran y pedwar Awdurdod Lleol canlynol – Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Powys a Sir Benfro.

Mae Ceredigion yn gyfrifol am reoli'r broses ymgeisio i rieni/gofalwyr trwy gyfrwng ffurflen gais ar-lein. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r wybodaeth y mae gofyn i ni ei chasglu wrth brosesu ceisiadau i sicrhau bod rhieni yn gymwys.

Rhaid i'r rhiant/gofalwr sy'n gyfrifol am y plentyn gyflwyno'r cais i Gyngor Sir Ceredigion.

Defnyddir eich gwybodaeth er mwyn:

- Pennu cymhwystra rhieni sy'n gweithio i fanteisio ar y Cynnig Gofal Plant;
- Galluogi i daliadau cywir gael eu gwneud i ddarparwyr gofal plant;
- Gwerthuso'r defnydd o'r Cynnig Gofal Plant;
- Cynorthwyo gwelliannau i'r Cynnig Gofal Plant;
- Hysbysu cyllid ar ffurf grant i awdurdodau lleol yn y dyfodol;
- Cynorthwyo gwaith ymchwil pellach i gynorthwyo rhieni i sicrhau cyflogaeth;
- Gwerthuso effaith y prosiect ar unigolion sy'n cymryd rhan;
- Gwerthuso effaith y prosiect ar ddarparwyr gofal plant.

Y sail gyfreithiol dros brosesu eich gwybodaeth yw:

- Mae angen casglu a phrosesu'r data hwn er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus (darparu'r Cynnig Gofal Plant ar ran Llywodraeth Cymru). Darparir y Cynnig Gofal Plant er mwyn cyflawni tasg a sefydlwyd gan adran 60 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Pan brosesir data categori arbennig, y sail gyfreithiol fydd:

Erthygl 9 (g) Rhesymau budd sylweddol y cyhoedd (bydd yr amodau prosesu budd y cyhoedd yn ddibenion statudol neu y llywodraeth, a thriniaeth neu gyfle cyfartal)



(j) dibenion ystadegol (deddfwriaeth fel yr uchod)

Beth os na fyddwch yn darparu data personol?

Os na fyddwch yn rhoi'r wybodaeth y bydd ei hangen arnom pan fyddwn yn gofyn amdani, bydd hyn yn golygu na fyddwn yn gallu asesu eich cymhwystra i gael y Cynnig Gofal Plant.

Pa fath o wybodaeth yr ydym yn ei defnyddio?

Wrth wneud cais am y Cynnig Gofal Plant, caiff cyfrif rhiant ei greu trwy System Rheoli Perthynas Cwsmer (CRM) y Cyngor, o'r enw Clic. Cedwir yr holl ddata a gesglir fel rhan o'r cais mewn cronfa ddata ar weinydd a leolir yn ein rhwydwaith diogel. Caiff dogfennau sy'n cael eu lanlwytho eu dal mewn gweinydd dogfennau diogel, ar wahân. Gwneir copi wrth gefn o'r gweinyddion a'r gronfa data yn rheolaidd, a rheolir mynediad iddynt trwy enwau defnyddwyr unigol a chyfrineiriau. Caiff cyfeirnod unigryw ei baratoi ar gyfer pob plentyn fel rhan o'r broses. Mae hyn yn caniatáu i ni dracio plentyn trwy'r system heb orfod defnyddio enw'r plentyn. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gynnal a chadw ac am ddiogelwch system y Cynnig Gofal Plant.

Rydym yn casglu'r mathau canlynol o ddata personol amdanoch chi er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn, gan ddibynnu ar eich amgylchiadau:

Rhieni plant sy'n manteisio ar y cynnig gofal plant- archwilio Cymhwystra

Bydd awdurdodau lleol yn gofyn am fanylion amdanoch chi, fel rhiant neu ofalwr plentyn neu blant o'r fath, a'r plant sy'n cael gwasanaethau dan y cynnig gofal plant, er mwyn sicrhau eich bod yn gymwys i gael y cynnig yn erbyn meini prawf cymhwystra fel y'u pennir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys;

- Eich oriau gwaith a'ch cyflog
 - Mae'r Awdurdod Lleol yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i Lywodraeth Cymru yn ddiennw, sy'n golygu **na** fydd y data hwn yn cynnwys eich enw chi nac enw eich plentyn.
- Dyddiad geni y plentyn yr ydych chi'n gwneud cais i gael y cynnig gofal plant ar eu cyfer
 - Bydd yr Awdurdod Lleol yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i Lywodraeth Cymru yn ddiennw hefyd, sy'n golygu **na** fydd y data hwn yn cynnwys eich enw chi nac enw eich plentyn.
- Eich cyfeiriad
 - Bydd yr Awdurdod Lleol yn trosglwyddo eich cod post i Lywodraeth Cymru yn ddiennw, sy'n golygu **na** fydd y data hwn yn cynnwys eich enw chi nac enw eich plentyn.
- Gwybodaeth am fudd-daliadau yr ydych chi'n eu hawlio, y gallent olygu eich bod yn gymwys i gael y cynnig gofal plant
 - **Ni** throsglwyddir hon i Lywodraeth Cymru.



Rhieni / Gofalwyr, a phlant sy'n cael y cynnig gofal plant

Mae awdurdodau lleol yn darparu manylion amdanoch chi, fel rhiant neu ofalwr plentyn o'r fath, neu blant a'r plant sy'n cael gwasanaethau dan y cynnig gofal plant oddi wrthyn nhw i Lywodraeth Cymru, ac mae hyn yn cynnwys:

- Data am eich plentyn a chi fel y rhiant(rhieni)/gofalwr(gofalwyr);
 - Rhyw
 - Dyddiad Geni
 - Cod post
 - Awdurdod lleol
 - Ethnigrwydd
 - Os oes gan eich plentyn angen addysgol arbennig(AAA)/Angen Dysgu Ychwanegol (ADY)
 - Gwybodaeth am eich cyflog
 - Nifer gyfartalog yr oriau yr ydych chi'n gweithio mewn wythnos
 - A ydych chi wedi manteisio ar unrhyw wasanaethau Dechrau'n Deg – ni chesglir gwybodaeth am ba wasanaethau

- Manylion sylfaenol y gwasanaethau a ddarparwyd i chi a'ch plentyn cyn i chi fanteisio ar y cynnig gofal plant;
 - Eich sgôr fforddiadwyedd gofal plant cyn manteisio ar y cynnig gofal plant
 - Eich gwariant misol cyfartalog ar ofal plant cyn manteisio ar y cynnig gofal plant
 - Nifer yr oriau gofal plant y talwyd amdano y defnyddioch bob wythnos ar gyfartaledd cyn manteisio ar y cynnig
 - Nifer yr oriau gofal plant di-dâl y defnyddioch bob wythnos ar gyfartaledd cyn manteisio ar y cynnig

- Manylion sylfaenol y gwasanaethau a ddarparwyd i chi a'ch plentyn wrth fanteisio ar y cynnig gofal plant;
 - Nifer yr oriau yr ydych chi wedi gwneud cais amdanynt ar gyfer y plentyn dan y cynnig gofal plant
 - Nifer yr oriau y mae eich plentyn yn mynychu'r oriau a archebwyd dan y cynnig gofal plant
 - Darpariaeth iaith y gofal plant y mae eich plentyn yn manteisio arno
 - Eich dewis iaith o ran y ddarpariaeth er mwyn i'ch plentyn fanteisio ar y cynnig
 - Presenoldeb eich plentyn yn Narpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen
 - Rhif cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) y darparwr(darparwyr) gofal plant lle'r ydych chi'n manteisio ar y cynnig gofal plant



Darparwyr gofal plant sy'n darparu gwasanaethau dan y cynnig gofal plant

Mae awdurdodau lleol yn darparu eich manylion chi fel darparwr sy'n darparu gwasanaethau dan y cynnig gofal plant i Lywodraeth Cymru, ac mae hyn yn cynnwys:

- Eich manylion cyswllt gan gynnwys – enw, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post a rhif cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Darpariaeth iaith eich lleoliad fel y gwnaethoch ei ddatgan i'r awdurdodau lleol ac i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Nifer yr oriau y mae pob plentyn sy'n cael y cynnig gofal plant yn eich lleoliad wedi eu harchebu gyda chi a sawl awr y maent wedi eu mynychu mewn gwirionedd
- Unrhyw gostau ychwanegol y mae rhieni wedi eu talu trwy fanteisio ar y cynnig yn eich lleoliad gan gynnwys; costau bwyd, costau teithio, ac unrhyw oriau ychwanegol y byddant yn manteisio arnynt yn eich lleoliad yn ychwanegol i'r cynnig gofal plant.

A ydym yn defnyddio gwybodaeth a gafwyd gan ffynonellau eraill?

Os bydd gofyn cael gwybodaeth bellach er mwyn ein galluogi i brosesu cais, efallai y byddwn yn sicrhau gwybodaeth amdanoch chi gan ffynonellau eraill, megis:

- Cyflogwyr
- Cyfrifwyr
- CThEF
- Adrannau eraill y Cyngor

Caiff y mathau canlynol o ddata personol eu sicrhau:

Ceisiadau Rhieni:

- Enw;
- Cyfeiriad;
- Dyddiad geni;
- Rhyw;
- Cyfeirnod unigryw;
- Rhif ffôn;
- Cyfeiriad e-bost;
- Cyfansoddiad eich teulu;
- Eich amgylchiadau ariannol;
- Manylion cyflogaeth;
- Rhif Yswiriant Gwladol;
- Eich cefndir hiliol neu ethnig;

Manylion y plentyn:

- Enw;



- Dyddiad geni;
- Rhif Tystysgrif Geni;
- Cyfeiriad;
- Darparwr gofal plant;
- Darparwr Meithrin y Cyfnod Sylfaen;
- Wedi manteisio ar Ddechrau'n Deg;
- Mae gofyn cael cymorth ADY;
- Plentyn sy'n Derbyn Gofal;
- Gorchymyn Gofal.

Darparwyr Gofal Plant

Er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn, rydym yn casglu gwybodaeth yn uniongyrchol wrthy ch, ond hefyd, rydym yn cael gwybodaeth o'r ffynonellau canlynol:

- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD)

Caiff y mathau canlynol o ddata personol eu sicrhau:

- Enw;
- Cyfeiriad;
- Rhif ffôn;
- Cyfeiriad e-bost;
- Rhif cofrestru AGC;
- Manylion banc.

Am ba mor hir y byddwn yn cadw eich gwybodaeth

Rhieni (a phlant) sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant:

- Caiff tystiolaeth prawf cymhwysra ei dileu o'r system, cyn pen 21 diwrnod o ddiwedd y tymor olaf pan fydd y plentyn yn gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant.
- Caiff data arall ei ddileu o'r system cyn pen 18 mis o ddiwedd y tymor olaf pan fydd y plentyn yn gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant.

Rhieni (a phlant) y mae eu cais yn llwyddiannus ond na fyddant yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant:

- Cyn pen 21 diwrnod o ddiwedd y tymor olaf pan fydd y plentyn yn gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant

Rhieni (a phlant) y bydd eu cais yn aflwyddiannus:

- Cyn pen 21 diwrnod o (i) diwedd y cyfnod a ganiateir i wneud apêl, neu (ii) diwedd y broses apêl ffurfiol, os gwneir apêl o'r fath.

Darparwyr a gofrestrwyd i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant:

- Cyn pen 18 mis ar ôl i ddarparwyr ddatgofrestru i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant



Trosglwyddo eich gwybodaeth i wlad dramor

Ni throsglwyddir eich gwybodaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Pwy y gellir rhannu eich gwybodaeth gyda nhw (yn fewnol ac yn allanol)?

Rydym yn rhannu eich gwybodaeth gyda'r derbynwyr canlynol:

Mewnol:

- Adrannau eraill y Cyngor – Tîm Credydwyr a Dyledwyr yr Adran Gyllid, Meithrin Cyfnod Sylfaen (Tîm Derbyniadau i Ysgolion)
- Partneriaid Cymorth Meddalwedd TG – bydd unrhyw fynediad at ddibenion datrys unrhyw broblemau technegol ar ein systemau yn unig, a bydd unrhyw achos o weld data yn ddamweiniol

Allanol:

- Tîmau Gofal Plant Awdurdod Ymgysylltu Cyngor Sir Gaerfyrddin, Powys a Phenfro
- Tîm Trafod Gofal Plant Llywodraeth Cymru
- Ymchwil Arad – Comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r prosiect
- Asiantaethau eraill y Llywodraeth megis Cyngorau eraill, Cyllid a Thollau EF, yr Heddlu, Menter Twyll Cenedlaethol, Swyddfa Archwilio Cymru
- Darparwyr gofal plant – dim ond i gadarnhau lle eich plentyn

Rhaid i ni rannu rhywfaint o ddata gyda gwerthuswyr annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cymru er mwyn galluogi gwerthusiad o effaith y Cynnig Gofal Plant ac asesiad o'r prosesau a ddefnyddiwyd i'w ddarparu.

Pan fo'r gwaith lledaenu hwn yn cynnwys data y byddai modd ei ddefnyddio i ddynodi unigolion, caiff hyn ei gymeradwyo a'i reoli gan gytundeb mynediad data Llywodraeth Cymru priodol, a fydd yn:

- Sicrhau bod y data yn cael ei drosglwyddo, ei storio a'i ddinistrio yn y pen draw mewn ffordd ddiogel.
- Cyfyngu ar y defnydd i'r gofyniad penodol a nodwyd, gan ganiatáu i'r data gael ei storio yn ystod cyfnod y prosiect ymchwil;
- Gwneud unrhyw ddata a gesglir trwy offerynnau ymchwil yn ddienw cyn gynted ag y bo modd.

Ceir sefyllfaoedd penodol eraill hefyd lle y bydd gofyn i ni ddatgelu gwybodaeth amdanoch chi hefyd efallai, megis:

- Pan fydd gofyn i'r Cyngor ddarparu'r wybodaeth yn unol â'r gyfraith:
- Pan fo gofyn datgelu'r wybodaeth er mwyn atal neu ddarganfod trosedd
- Pan fo datgelu er budd hanfodol yr unigolyn dan sylw



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Cysylltu â Ni:

Os bydd gennych chi unrhyw bryderon neu os hoffech gael gwybod mwy am y ffordd y mae'r Uned Gofal Plant yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â ni trwy gyfrwng un o'r ffyrdd canlynol:

Trwy neges e-bost: gofalplant@ceredigion.gov.uk

Dros y Ffôn: 01545 570881

Trwy'r Post:

Uned Gofal Plant,
Cyngor Sir Ceredigion,
Canolfan Rheidol,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3UE.